YSGOL BRYNREFAIL

45 Mlynedd o Lywodraethu

Yn dilyn ei hymddeoliad fel Cynghorydd Gwynedd eleni, bu i gyfnod Mrs. Pat Larsen fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Brynrefail ddod i ben y tymor hwn ar ôl 45 mlynedd o wasanaeth ffyddlon a cydwybodol dros ben. Bu iddi gychwyn ar y gwaith yn 1967 ac mae 5 Prifathro wedi bod wrth y llyw ers hynny. Diolch o waelod calon iddi am ei chefnogaeth gadarn i'r ysgol a'i chymuned dros cymaint o flynyddoedd a dymuniadau gorau iddi yn ei hymddeoliad.